Adroddiad Cyfarfod 12:02:20
Vicki Hinde - Sebonau Prydferth

Roedd arogl bendigedig yn festri Capel Cysegr pan ddaeth Vicki Hinde draw i ddangos i ni sut i wneud sebon, ac i sôn am ei busnes ym Meddgelert, sef "The Soap Mine".

Hobi oedd gwneud sebonau i gychwyn gan Vicki, a bu'n pori trwy lawer o lyfrau cyn arbrofi drosodd a throsodd a mireinio ei chrefft. Tyfodd yr hobi i fod yn fusnes prysur gyda Vicki yn gwneud ei sebonau ac yn magu dwy eneth fach yn un pryd.

Erbyn heddiw mae'r sebonau hyfryd, sy'n fegan ac yn garedig iawn i'r croen, ar werth mewn un ar bymtheg o siopau gan gynnwys 'Slate and Things' yng Nghaernarfon a Storiel ym Mangor. Roedd llawer wedi manteisio ar y cyfle i brynu sebon hardd ar ôl i Vicki orffen yr arddangosiad, a da oedd cael gwybod bod posib prynu ar-lein hefyd drwy ei gwefan www.thesoapmine.co.uk

Cawson wybodaeth am weithgareddau Merched Y Wawr gan ein Llywydd Mair Read. Da oedd clywed fod Clwb Gwawr wedi ei sefydlu yng Nghaernarfon, gyda hanner cant wedi dod ynghyd i'r cyfarfod cyntaf. Cawsom gyfle i noddi Eirlys Williams sy'n cymryd rhan yn Nistawrwydd Noddedig y Pwyllgor Anabl.

Anfonwyd ein cofion anwylaf at Mary Wyn Jones sydd wedi cael codwm hegar, ac i Anwylyd Jones sydd wedi colli ei chyfnither.

Ar Fawrth 11 byddwn yn mynd ar ymweliad i Halen Môn cyn cael pryd i ddathlu Gŵyl Ddewi yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy. Bydd y bws yn cychwyn am 5:15yh o Dan y Buarth, gan godi yn y mannau arferol yn y pentref.